

Cofion

- Cydymdeimlwn yn fawr heddiw hefo Elwyn Tudor a Gwyneth Griffiths (Henllan) yn y brofedigaeth o golli chwaer.
- Mae amryw o'n plith wedi bod yn glaf yn ddiweddar a gweddiwn eu bod yn profi adferiad a phresenoldeb nerthol yr Arglwydd. Mae Elfed Davies (Saron) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd; Thomas Evans (Llanfair) bellach yn Ysbyty Llanellwyr; ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) wedi symud i'r Inffirmari, ac yno hefyd y mae Thomas Hughes (Saron) a William Jones (Llanefydd).
- Bu i Catrin Elen Jones, Mari Jones a Guto (Llansannan); Rhydian Jones a Mali (Saron); Neville Hughes (Groes); Eiddwen Jones (Henllan); a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) hefyd dreulio rhywfaint o amser yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos ond maent i gyd bellach wedi cael dychwelyd adref.
- Llongyfarchiadau calonnog i Rhys Williams (Llanefydd) ac Anna ar eu dyweddiad a Caryl Jones (Llansannan) a Melfyn ar eu dyweddiad hwythau.

Dosbarth derbyn – diddordeb?

Mae'n fwiad gennym gynnal dosbarth derbyn ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod yn gyflawn aelodau o unrhyw un o gapeli'r Fro. Os ydych yn barod i ymateb, yna cysylltwch hefo Aneurin (07775 701102) neu Mair (870632) **cyn diwedd y mis** ac fe drefnir yr amser fydd fwyaf cyfleus. Bydd angen mynychu cyfres o ddeg dosbarth.

Oedfa Gollwng

Cofiwch am yr oedfa arbennig **heno am 6.00 yn Llansannan** pryd y cawn gyfle i ddweud diolch wrth Meirion a Sarah a'r plant am eu holl lafur yn ein plith. Bydd yr oedfa yn cael ei harwain gan Ben, bydd cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn dod atom a bydd y Parch Hywel Meredydd, Llangefni yn agor y Gair. Mi fydd hefyd yn gyfle i ymrwymo i weddio dros Meirion a'i deulu wrth iddynt gychwyn ar gyfnod o weinidogaeth newydd. Bydd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Ionawr 2011

"Rhaid i ni ddal yn fwy gofalus ar y pethau a glywyd rhag inni fynd gyda'r llif." Heb 2:1

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanwr.org

Mae heddiw yn ddiwrnod pwysig arall yn hanes y Fro a gweddiwn am i'r Ysbryd Glân ddod i'n plith i'n helpu i godi mawl i Dduw ac i gael ein gwneud yn debycach i Iesu trwy'r holl newidiadau. 'Diolch' fydd yn ein calon heddiw wrth i ni edrych yn ôl ar gyfnod cyffrous, ac wrth i ni edrych ymlaen at yr hyn sydd gan Dduw ar ein cyfer dros y cyfnod nesaf yma. Yn ei allu Ef y mae pob peth yn bosibl a gwyddom o brofiad mai wrth i ni ymddiried ynddo Ef y bydd Ef yn tywallt ei fendithion arnom ac yn agor llwybrau newydd i ni.

Rhyw enw digon rhyfedd yw'r enw sy'n cael ei roi ar y cyfarfod heno – Oedfa 'Gollwng'! Y darlun sydd yn fy meddwl i ydi'r un sy'n gyfarwydd i ffermwyr wrth iddynt ollwng eu stoc i'r caeau yn dilyn cyfnod o gaethiwed dan do dros fisoedd y gaeaf. Wrth aroglu'r borfa ffres a chael dipyn o awyr iach yn eu hysgyfaint maent fel arfer yn neidio ac yn rhedeg yn flith drafflith ar draws ei gilydd fel rhai gwirion! Maent yn gyffrous o gael eu 'gollwng' a'u hasbri a sŵn eu breffu yn cyhoeddi fod y gwanwyn wedi cyrraedd!

Ar y llaw arall, rwy'n cofio pa mor anodd oedd hi ar ambell i garcharor wrth gael eu rhyddhau – neu ei 'ollwng' - o garchar. Roedd hyn yn wir yn yr oriau cyntaf hynny, yn enwedig pryd y byddai'r temtasiwn i fynd yn ôl i'r hen ffordd o fyw ar ei waethaf. Y dyddiau cyntaf oedd y rhai caletaf cyn i'r bywyd newydd setlo i ryw fath o normalrwydd. Mae pob newid yn her.

'Dydw i ddim yn awgrymu am eiliad mai fel hyn y mae Meirion yn gweld ei hun yn cael ei 'ollwng'! Ond diau y bydd elfen o lawenydd gwanwynol ac elfen o risg go iawn yn y pair yn rhywle! Yr hyn sydd yn ein calonnau ni yn sicr yw gwerthfawrogiad dwfn o holl lafur y teulu yn ein plith a dymuniadau diffuant am iddynt gael prawf o fendith yr Arglwydd yn peri llwyddiant i'r gwaith mawr sydd ganddo ar eu cyfer. Duw yw perchennog y winllan – gweddiwn yn daer am iddo gadw a chynnal y rhai sy'n llafurio ynddi. Gweddiwn hefyd am gael gweld y ffrwyth yn amlhau a gwaith gras yn cynyddu ar draws Cymru fel y cawsom ni y fraint o'i brofi yma yn y Fro dros yr holl flynyddoedd.

Yn y llythyr at yr Hebraid, cawn ein hannog i 'ddal gafael' hefyd. A dyma ochr arall y geiniog. Wrth ollwng Meirion o'i ddyletswyddau gweinidogaethol heno yn Oedfa'r Fro, bydd galw arnom ni i 'ddal gafael' yn ein cyffes a pheidio a gadael i ddim ein tynnu oddi ar yr iachawdwriaeth a gawsom yng Nghrist. Byddwn hefyd yn cael ein hannog i 'ddal gafael' ar Meirion, Sarah, Catrin, Steffan, Sion a Hanna trwy weddio'n gyson trostynt a'u cyflwyno i ofal ein Tad yn ddyddiol. Dyma yw'r ffordd orau un o ddangos ein gwerthfawrogiad ohonynt ac o'n cariad tuag atynt.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Gwasanaeth Arbennig** yn Llansannan am 6.00 i arwyddo diwedd tymor Meirion yma fel gweinidog. Mi fydd Aneurin yn dweud gair ar ran yr Eglwysi, a byddwn yn croesawu y Parch Hywel Meredydd yma i bregethu. **Bydd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i bawb yn dilyn yr oedfa.**

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00.
Mawrth **Cyfarfod Chwiorydd Eglwysi Bro Aled** yng Nghapel Groes am 7.30 gyda Sarah Morris yn annerch. Bydd sgwrs fer am y gwaith cenhadu sy'n digwydd yn y Fro, am rôl y Tîm Gwasanaethu ac am Apêl Mizoram. Plis gwnewch ymdrech i ddod i'r cyfarfod am banded, cyfle i gymdeithasu a chyfle i ddarganfod bod y Cyfarfod Chwiorydd yn le 'dach chi eisiau bod yno!

Mercher **Adnabod Sei@** - cyfarfod i bobl ifanc oed uwchradd yn Tai Bach am 7.30.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30

Gwener-Sul **Cwrs Plant yng Ngholeg y Bala** o Chwefror 4ydd – 6ed. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sarah (870601) neu Goleg y Bala (01678 520565). Cost £48 (i blant Eglwysi Bro Aled - £38).

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd y Parch Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00, a'r un modd yng Nghefn Berain - Ysgol Sul am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102 erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau